



Rheoli

RHEOLI AHNE BRYNIAU CLWYD

Mae'r adran hon yn ystyried Adroddiad Cyflwr yr AHNE ac yn trin y pwysau ar bob Nodwedd Arbennig ynddi. Er mwyn gwneud hyn, mae angen edrych ar y pwysau ar bob lefel, o'r camau sydd eu hangen yn y maes i'r polisiau a fydd yn sylfaen i'n hagwedd tuag at reoli'r AHNE. Mae'r amcanion y mae'r camau'n deillio ohonynt yn adnabod targedau a dyheadau ar gyfer y dyfodol gyda'r Cynllun Gweithredu yn pennu ein rhaglen ar gyfer cyrraedd y targedau hyn.

EGWYDDORION SYLFAENOL

Yn sylfaen i'r holl gynllun mae nifer o egwyddorion ar y rhain y mae ein hagwedd tuag at reoli'r AHNE wedi eu seilio. Mae'r egwyddorion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y polisiau ar gyfer yr AHNE, yn cynrychioli agwedd gyffredinol tuag at gyflawni ein hamcanion a darparu cyfres o edeuon sy'n sicrhau agwedd holistig.

Cynladwyedd

Er mwyn gwneud gwahaniaeth rhaid i ni sicrhau nid yn unig bod camau positif a gymerwn heddiw yn dal i gael effaith yfory, ond hefyd nad yw'r penderfyniadau a gymerwn yn effeithio'n negyddol yr amgylchedd rydym yn ceisio ei gwarchod yn y tymor hir. I ddeall yn wirioneddol effaith ein gweithredoedd rhaid i ni ganfod yn gyntaf ddealltwriaeth o'r holl brosesau sy'n cael effaith ar y dirwedd. Dim ond wedyn, yn erbyn darlun clir o'r cyflwr newidiol, y medrwn geisio darogan effaith. Rydym angen darlun clir o nodweddion arbennig y dirwedd; dealltwriaeth o'r gallu ar gyfer newid a chytundeb ar gyfyngiadau newid derbyniol. Mae hyn wrth graidd cynladwyedd ac mae angen i ni sicrhau bod yr atebion a geisiwn wrth warchod nodweddion arbennig yr AHNE yn rhai sy'n para.

Mae cefn gwlad heddiw yn deillio o ddatblygiad economaidd defnydd tir a chyfansoddiad newidiol cymunedau gwledig. Nid yw hyn bob amser wedi cael dylanwad positif ar lawer o'r pethau rydym yn eu gwerthfawrogi yn y dirwedd. Mae cynefinoedd bywyd gwyllt wedi dirywio, sgiliau gwledig yr un modd, mae llawer o nodweddion wedi eu llyncu gan ddatblygiad ac mae hunaniaeth ddiwylliannol wedi brwydro i oroesi.

Mae'r cynllun rheoli hwn yn rhoi cyfle i adnabod y nodweddion arbennig hynny sy'n ffurfio'r dirwedd a sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn cydnabod pwysigrwydd a lle'r rhain mewn bywyd gwledig. Bydd y cynllun rheoli hwn yn ceisio cynnwys cymunedau a rheolwyr tir yn y gwaith o warchod y nodweddion hyn, cymryd cyfrifoldeb a sicrhau eu goroesiad i'r dyfodol.

Bydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu cynnal trwy'r cynllun:

- ESC1** Cynnwys cymunedau yn y gwaith o warchod a rheoli lleiniau gleision a safleoedd cefn gwlad
- ESC2** Gwneud cadwraeth ucheldiroedd yn rhan annatod o reolaeth amaethyddol a dangos manteision hyn mewn termau economaidd. Efallai bydd enghreifftiau yn deillio o Broiect Grug a Bryngaerau.
- ESC3** Dangos gwerth am arian wrth gyflawni projectau
- ESC4** Ceisio partneriaethau gyda'r gymuned amaethyddol wrth ddatblygu rhaglenni ar gyfer rheoli cadwraeth
- ESC5** Gwella potensial economaidd yr ardal, tra'n cysoni'r angen i warchod yr amgylchedd, er enghraifft trwy gyfrwng cyfleoedd twristiaeth ddiwylliannol.



Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth

Mae darparu gwybodaeth a dehongliad yn bwysig o ran gweithredu'r strategaeth hon. Mae 'AHNE' yn jargon arbenigol nad yw'n cael ei ddeall gan y mwyafrif. Mae llawer o bobl leol nad ydynt yn ymwybodol eu bod yn byw mewn tirwedd a warchodir yn genedlaethol. Y brif her o ran dehongli yw gwneud y term 'AHNE' yn berthnasol ac ystyrlon i bobl leol ac i ymwelwyr.

Mae hybu ymwybyddiaeth o'r AHNE yn hollbwysig i gadwraeth Bryniau Clwyd a diogelu dyfodol y Nodweddion Arbennig. Cyfranogiad yw'r addysg orau ac mae'n arwain at ymwybyddiaeth barhaus. Bydd cynnwys y rhai sy'n byw a gweithio yn yr AHNE, ynghyd ag ymwelwyr, yn arwain at well lefel o ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o nodweddion arbennig yr ardal. Rhoddir cyfle i grwpiau cymunedol, ysgolion ac unigolion chwarae rhan yng ngwaith yr AHNE ar lefel ymarferol ac yn y cyfnod cynllunio.

Mae cynhyrchu deunydd dehongli a digwyddiadau cyhoeddus yn arfau pwysig ar gyfer codi proffil agweddau penodol yr AHNE a byddant yn chwarae rôl ganolog wrth gyflwyno llawer o amcanion y Nodweddion Arbennig.

Bydd yr egwyddorion canlynol yn rhedeg trwy'r cynllun.

- ESY1** Rhoi cyfle i gynnwys pobl yng ngwaith yr AHNE trwy gyfrwng rhaglen ddigwyddiadau flynyddol a chynnal o leiaf 20 digwyddiad y flwyddyn.
- ESY2** Rhoi cyfle i gymunedau ac unigolion arwain o ran cadwraeth nodweddion yn yr AHNE trwy ryddhau arian Cronfa Datblygiad Cynaliadwy ar gyfer projectau a arweinir gan y gymuned.
- ESY3** Codi proffil yr AHNE ar safleoedd Gwasanaeth Cefn Gwlad a Menter Coedwigaeth ac yn y prif bwyntiau mynediad.
- ESY4** Codi proffil yr AHNE ymhlith y sawl sy'n byw a gweithio yn yr ardal ac ymhlith ymwelwyr.

Partneriaethau

Rheolir AHNE Bryniau Clwyd trwy gyfrwng cyfres o bartnaeriethau.

Llywodraethir Bryniau Clwyd gan y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol, sy'n cynrychioli'r ddau Awdurdod Lleol, tîrfeddiannwyr, ffermwyr a buddiannau cadwraeth ac adloniant. Mae'n adnodd grymus o ran ystod a dyfnder profiad ac arbenigedd gwleidyddol a phroffesiynol. Ynghyd â nifer o asiantaethau a grwpiau lleol, cyflawni'r gwaith i sylweddoli amcanion Cynllun Rheoli'r AHNE.

Mae oddeutu 70% o'r AHNE yn Sir Ddinbych a'r 30% arall yn Sir y Fflint. Mae hyn yn golygu mai Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych sy'n arwain o ran rhaglen reoli ac yn darparu gwasanaethau gweinyddol ar gyfer y CBY.

Ffermwyr a Thirfeddiannwyr

Mae dylanwad dyn wedi bod yn offerynnol yn siapio'r dirwedd unigryw sydd gennym heddiw a bydd yn parhau i gael effaith. Mae'r rhan fwyaf o'r AHNE mewn meddiant preifat ac felly mae'n hanfodol bod gennym ewyllys da'r tîrfeddiannwyr oherwydd eu gweithredoedd hwy yn bennaf a fydd yn gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd. Bydd swyddogion AHNE yn cryfhau'r bartneriaeth rhyngddynt a'r gymuned amaethyddol a thirfeddiannwyr i gadw'r ewyllys da hwn.

Partneriaeth Coedwigeth

Tra bo nifer o asiantaethau cenedlaethol wedi eu cynrychioli ar y CBY, mae Bryniau Clwyd wedi meithrin perthynas arbennig gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru er mwyn helpu cyflwyno rhaglen i broiectau cymunedol a datblygu rhaglen Addysg trwy gyfrwng Menter Addysg Coedwig – FEI. Y canolbwynt ar gyfer y rhain yw'r prif flociau coedwigaeth ym Moel Famau, Llangwyfan a Nercwys.



Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) yn gysylltiad hanfodol rhwng yr AHNE a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Trwy gyfrwng cyngor ar bolisi cenedlaethol ynghyd â darparu cyllid craidd ar gyfer staff a gwaith project, mae'n chwarae rôl ganolog o ran datblygu a chyflwyno'r cynllun rheoli. Mae staff AHNE yn cyfarfod yn rheolaidd gyda staff CCGC yn genedlaethol ac yn rhanbarthol wrth ddatblygu holl agweddau o waith yr AHNE.

Partneriaeth Grug a'r Caerau

Amcan y project hwn yw datblygu menter graddfa tirwedd i warchod, gwella a chynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynefin arbennig yr ucheldir grugog a threftadaeth hanesyddol Bryniau Clwyd a Mynydd Llantysilio, Gogledd Cymru.

Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Grug a'r Caerau yn 2002 i helpu arwain y project hwn.

Cyfeillion Moel Findeg

Agwedd gynhwysol tuag at ddatblygu rhaglen ymarferol o brojectau, sydd wedi arwain at sefydlu nifer o bartneriaethau allweddol gyda grwpiau cymunedol lleol. Yn benodol, caiff Gwarchodfa Natur Leol Moel Findeg ei rheoli mewn partneriaeth gyda Chyfeillion Moel Findeg a Chymdeithas Wledig Maeshafn a'r Ardal nid yn unig trwy gyfrwng grwp llywio ar gyfer y safle ond hefyd trwy gyfrwng cefnogaeth ymarferol ac ariannol.

Gwirfoddoli

Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych hefyd yn gweithio gyda grwp o wirfoddolwyr ledled y Sir a'r AHNE. Mae mwy na 70 o unigolion yn rhoi o'u hamser yn rheolaidd i chwarae rhan yng ngwaith y Gwasanaeth

Partneriaethau Eraill

- Project Adfer y Grugiar Ddu
- Cadwyn Clwyd
- Cymdeithas Amgylcheddol Prestatyn
- Grwp Bywyd Gwyllt Trefol Glannau Dyfrdwy
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
- Coed Cymru
- Grwp Amgylcheddol Dyserth
- Cymdeithas Gadwraeth Gwaenysgor
- Coleg Amaethyddol Llysfasi
- Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint





Bydd yr agwedd bartneriaeth hon yn cael ei ehangu ar ôl Deddf CRoW sy'n annog agwedd gyfun tuag at reoli tir ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddangos eu hymrwymiad i bwrpas AHNE yn eu cynlluniau a'u gweithgareddau. Bydd swyddogion AHNE yn sicrhau bod gan bartneriaid ymrwymiad rhanedig i weithredu'r cynllun.

Gwarchod ein Treftadaeth

Mae glaswelltir carreg galch, gweundir ucheldirol a choedlan onnen gymysg ucheldirol yn Gynefinoedd Blaenoriaeth y DG fel a nodwyd yn Neddf CRoW 2000. Mae'n bwysig bod AHNE Bryniau Clwyd yn cydnabod hyn ac yn gweithio tuag at gyrraedd targedau'r DG ar gyfer y Nodweddion Arbennig hyn. Mewn nifer o achosion mae'r cynefinoedd hyn yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig penodol neu'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ymgeisiol, ac felly yn flaenoriaethau ar gyfer rheolaeth gadwraethol.

Mae nifer o rywogaethau blaenoriaethol y DG hefyd i'w canfod ym Mryniau Clwyd, yn fwyaf nodedig y dyfrgi, grugiar ddu, llygoden y dwr, gafr y gors. Mae'r rhain wedi eu cysylltu gyda chynefinoedd a gydnabyddir fel nodweddion arbennig yn yr AHNE ac felly efallai byddant yn ddangosyddion newid pwysig. Dylai rheoli ganolbwyntio ar dargedau blaenoriaeth y DG ar gyfer y rhywogaethau hyn.

Bydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu dilyn trwy'r cynllun.

- ESB1** Sicrhau bod targedau cenedlaethol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau yng Nghynllun Gweithedu Bioamrywiaeth y DG yn cael eu trosi yn gamau effeithiol ar lefel leol.
- ESB2** Cyflawni amcanion a thargedau cyffredinol fel a nodwyd yng Nghynlluniau Gweithredu Cynefin a Rhywogaeth LBAP Sir Ddinbych.
- ESB3** Sicrhau bod Cynllun Rheoli'r AHNE yn cyfrannu at gyflwyno targedau CGB lleol a DG a rhestr adran 74 Deddf CRoW.
- ESB4** Amddiffyn ac annog rheolaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt y Sir yn yr AHNE a fydd, gydag SDdGA, yn cynrychioli enghreifftiau gorau cynefinoedd lled-naturiol.
- ESB5** Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion bioamrywiaeth trwy gyfrwng addysg, digwyddiadau cyhoeddus, adroddiadau yn y cyfryngau ac ati



Polisiau

Bydd y polisiau yn y ddogfen hon yn arwain ein hagwedd tuag at reoli'r AHNE. Dyma'r sylfaen ar gyfer ein hamcanion a byddant yn diffinio ein hagwedd yn y dyfodol.

- Pol 1** Sicrhau mai gwarchod a gwella tirwedd yw'r brif ystyriaeth yn yr AHNE.
- Pol 2** Diogelu a gwarchod safleoedd a pharthau o ddiddordeb a phwysigrwydd archaeolegol.
- Pol 3** Gwarchod amrywiaeth cynefinoedd naturiol a lled-naturiol yn yr AHNE
- Pol 4** Gwarchod a chadw holl dir comin cofrestredig.
- Pol 5** Cynnwys cymunedau yn y gwaith o amddiffyn a rheoli'r dirwedd.
- Pol 6** Hybu defnydd cynaliadwy a mwynhad o'r dirwedd yn yr AHNE mewn modd sy'n cyfrannu at ffyniant lleol a chynhwysiant cymdeithasol.
- Pol 7** Cadw a gwella cyfleusterau a gwasanaethau hanfodol i bobl leol.
- Pol 8** Sicrhau bod datblygiad yn gydnaws gyda thirwedd a chymeriad yr ardal trwy gyfrwng y safonau dylunio uchaf.
- Pol 9** Gwrthwynebu datblygiadau oddi mewn i ac yn cyffinio'r AHNE a fydd yn niweidio cymeriad arbennig yr ardal.
- Pol 10** Sicrhau bod y Rhwydwaith Hawliau Tramwy yn cael ei reoli i'r safonau uchaf yn adlewyrchu ei statws fel AHNE.
- Pol 11** Sicrhau bod yr AHNE yn ffocws ar gyfer mwynhad a gwerthfawrogiad cyhoeddus o gefn gwlad.
- Pol 12** Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r dirwedd a'i chadwraeth.

